

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANYNYS A GYNHALIWYD AR NOS
FAWRTH 14EG O IONAWR 2020 YN Y PAFILIWN, RHEWL AM 7.30 O'R GLOCH.

PRESENNOL: Y Cyngorwyr Arwel Jones (Cadeirydd), Mike Denman, Ian Hession, Dewi Roberts, Clwyd Thomas, Siân Davies, Iona Jones, Wyn Wilkinson, Cyngorydd Sir Ddinbych Merfyn Parry a'r Clerc.

1: YMDDIHEURIADAU: Y Cyngorydd Brynle Lloyd.

2. DDATGAN DIDDORDEB.

Dim yn codi.

3. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 12fed o Dachwedd 2019 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Mae'r Adran Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych wedi caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol:-

1. Tystysgrif Datblygu Gyfreithlon ar gyfer y defnydd arfaethedig o adeilad fel tŷ annedd gan un gofalwr a dau berson ifanc, yng nghyd fyw mewn un cartref lle darperir gofal i breswylwyr (Defnydd Dosbarth C3B) ym Mhant Glas Uchaf, Bontuchel.
2. Trosi garej presennol ar gyfer llety domestig atodol yn The Three Sisters, Llanrhaeadr - dim gwrthwynebiad.

B. Derbyniwyd ymateb Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych ynglŷn ar faterion ffyrdd canlynol a chodwyd yn cyfarfod blaenorol y Cyngor:-

- 1: Dwr yn cynyddu ar y ffordd tuag at Blas Einws yn Rhewl - mae'r adran yn edrych i mewn i ddatrys y broblem cyn gynted â phosib.
2. Dwr yn cynyddu ar y ffordd heibio'r Pump House yn Rhewl - mae'r adran yn edrych i mewn i ddatrys y broblem cyn gynted â phosib..
3. Coed ar dir Rhyd-y-Cilgwyn, Rhewl yn cuddio'r Bont Afon Clywedog ar y A525 – nid yw'r coed yn buddio'r bont.
4. Mae'r coed ar ochr y ffordd yn Homewood Bound yn Rhewl eisiau eu torri - wedi ei thorri erbyn hyn.

5. CYLLID.

A. Datganiad Banc £17,318.09.

B. Derbyniwyd rhan olaf o'r precept y Cyngor am y flwyddyn yn diweddu 31ain o Fawrth 2020 - £3,150.00.

C. Penderfynwyd yr aelodau i dderbyn pris oddi wrth Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych am arwydd pentref "Llanynys" ar ffordd Llanychan/Llandyrnog gyferbyn a Wyrain ac i roi'r awdurdod i'r Clerc rhyddhau'r siec am £750.00.

D. Adroddwyd y Clerc fod Aelodau'r Cyngor gan yr hawl i lwfans o £150.00, y Cadeirydd £1,500.00 ar Is-gadeirydd £500.00 yn y flwyddyn ariannol bresennol am y flwyddyn yn diweddu 31ain o Fawrth 2020 i'w hawlio (os dymuno) cyn cyfarfod mis Mawrth 2020 y Cyngor.

E. Precept 2020/2021 y Cyngor - ar ôl trafodaeth ynglŷn â'r cyllid y Cyngor am y flwyddyn ariannol bresennol (2019/2020) a'r amcangyfrif am y flwyddyn ariannol 2020/2021, penderfynwyd gadael Treth y Cyngor am y flwyddyn ariannol 2020/2021 ar y sail o £25 ar yr 360 preswyl yn y gymuned sydd yn cynhyrchu incwm o £9,000.00.

6. CEISIADAU CYNLLUNIO.

Nid oedd gan yr aelodau unrhyw wrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio canlynol:-

A: Cais 24/2019/0639 - codi bloc stablau, storfa gwair a phorthiant a gwaith cystylliedig yn Pen Ddol, Llanynys.

B. Cais 24/2019/0977 - trosi ac addasu adeiladau allan bresennol i greu llety atodol ym Mhen-y-bryn, Rhewl.

C. Cais 24/2019/0945 – codi estyniad i ochr yr annedd yn Bro Heulog, Rhewl.

7. GOHEBIAETH.

Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

8. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

Cytunodd y Cynghorydd Sir Ddinbych, Merfyn Parry, i tynnu sylw'r Cyngor Sir am gymorth Adran Briffyrdd i'r canlynol:-

A: Eisiau glanhau'r a thrwsio'r ffordd heibio Pant Glas Isaf/Canol ac Uchaf ym Montuchel.

B. Twll o dan dwr ar y ffordd wrth y Pump House yn Rhewl.

C. Anhapus gyda'r ymateb fod y coed ar dir Rhyd-y-Cilgwyn ddim yn cuddio'r bont Afon Clywedog ar y A525 yn Rhewl.

D. Ffordd yr Orsaf yn Rhewl eisiau wyneb newydd ar unwaith.

E. Ffordd heibio'r felin ar "Lady Bagot's Drive" yn Rhewl eisiau ei thrwsio ar ôl i gerbyd gwneud niwed i'r wyneb yn ddiweddar.

G. Eisiau arwydd i foduron beidio â pharcio ar y gyffordd wrth y Drovers yn Rhewl ac i roi arwydd fod yna safle parcio gyferbyn ar gyn Ysgol Gynradd yn Rhewl.

9. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Fawrth 10fed o Fawrth 2020 yn Y Pafiliwn, Rhewl am 7.30 o'r gloch.